GUIDE
Growing up in Digital Europe

# GWAHODDIR CHI A'CH PLENTYN I GYMRYD RHAN YN ASTUDIAETH BEILOT 8 OED, TYFU I FYNY YN EWROP DDIGIDOL (GUIDE) YN Y DU

Annwyl Rieni/Gwarcheidwad,

Hoffai Coleg Prifysgol Llundain (UCL) a Phrifysgol Metropolitan Manceinion (MMU) wahodd plant 8 oed a'u rhiant neu warcheidwad cyfreithiol i gymryd rhan mewn astudiaeth newydd sy'n edrych ar sut mae plant yn tyfu i fyny yn yr oes ddigidol – Tyfu i Fyny yn Ewrop Ddigidol (GUIDE). Bydd astudiaeth GUIDE yn olrhain lles plant yn ogystal â'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol dros amser. Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon yn helpu i wella polisïau sy'n cefnogi lles plant.

Ar hyn o bryd rydym yn profi'r astudiaeth i wneud yn siŵr ei bod yn gweithio'n dda cyn i ni lansio prif astudiaeth GUIDE yn y DU.

Mae cymryd rhan yn golygu y bydd cyfwelydd o Ipsos, cwmni ymchwil annibynnol, yn ymweld â'ch cartref. Os penderfynwch gymryd rhan, bydd cyfwelydd o Ipsos yn ymweld â'ch cartref. Bydd y cyfweliad gyda'r rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol yn cymryd tua 60 munud i'w gwblhau a bydd y cyfweliad gyda'ch plentyn 8 oed yn cymryd tua 30-40 munud i'w gwblhau. Fel arwydd o werthfawrogiad, byddwch yn derbyn **taleb rhodd £20**, a bydd eich plentyn yn derbyn **taleb rhodd £10 yn ogystal â thystysgrif cyfranogiad**. Byddwn hefyd yn darparu **£100** i'ch ysgol am ein helpu gyda'r astudiaeth hon.

**I gofrestru eich diddordeb mewn cymryd rhan, ewch i'r ddolen isod a chwblhewch holiadur byr 5 munud https://ipsos.uk/GUIDE_Pilot neu sganiwch y cod QR.**

Am ragor o wybodaeth am yr astudiaeth, gallwch ymweld â'r gwefannau canlynol:

- Am fwy o fanylion am yr hyn y mae cyfranogi yn ei olygu, gellir dod o hyd i: daflen wybodaeth i chi a'ch plentyn ar wefan Ipsos GUIDE y DU:
- https://guidestudy.ipsos.com/
- Gellir dod o hyd i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar y wefan honno hefyd neu yn: https://guidestudy.ipsos.com/privacy-policy/
- Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am astudiaeth GUIDE Ewrop yma: https://www.guidecohort.eu

Gallwch gysylltu â thîm yr astudiaeth yn uniongyrchol ar:

- E-bost: UK-PA-GUIDE@ipsos.com
- Rhif rhadffôn: **0800 0688 055**

Diolch am eich cymorth. Gobeithiwn y byddwch yn dewis bod yn rhan o'r astudiaeth bwysig hon.

Yn gywir,

**Lisa Calderwood**
Athro Ymchwil Arolygon
Coleg Prifysgol Llundain

**Gary Pollock**
Athro Cymdeithaseg
Prifysgol Metropolitan Manceinion